

## Genesis

Mae Genesis yn adrodd nifer o storïau am 'ddechreuadau'. Yn wir, ystyr Genesis yw gwreiddyn neu ynhonnell. Mae'r llyfr yn dechrau drwy adrodd hanes dechrau'r byd,



### Dyfyniadau i ysbrydoli

<sup>1</sup>Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. <sup>2</sup>Yr oedd y ddaear yn auniaidd a gwag, ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder, ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd. <sup>3</sup>A dywedodd Duw, "Bydded goleuni." A bu goleuni.

(G. 1.1-3)

Dywedodd Duw, "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwyllt, ar yr holl ddaear, ac ar bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear."

(G. 1.26)

Bendithiaf di yn fawr, ac amlhau dy ddisgynyddion yn ddirfawr, fel sêr y nefoedd ac fel y tywod ar lan y môr.

(G. 22.17)



## Yngl n â'r Awdur

Yn draddodiadol ystyriwyd mai Moses oedd awdur pum llyfr cyntaf y Beibl (Genesis - Deuteronomium); a adwaenir mewn Iddewiaeth fel y Torah ac mewn Cristnogaeth yn aml fel y Pum Llyfr (neu'r pum dysgeidiaeth).

Heddiw byddai llawer o ysgolheigion yn dadlau nad Moses yw awdur y Pum Llyfr ond fod y pum llyfr wedi tyfu dros gyfnod hir o amser ac wedi eu hysgrifennu a'u golygu o draddodiad llafar.

Mae rhai o'r nodweddion, yn arbennig yn llyfr Genesis, yn awgrymu eu bod wedi deillio o wahanol ynonellau, ble mae storiâu'n cael eu hadrodd fwy nag unwaith a ble nad oes cysylltiad cyson (mewn geiriau eraill rydych chi'n cael eich synnu gan y newid pwnc). Efallai yr hoffech chwilio am y rhain a chanfod eich hun wedi'ch synnu gan yr hyn rydych yn ei ddarllen a gweld beth yw eich barn.



## Yngl n â'r cyfnod

Gosodwyd Genesis o wawrio amser ymlaen. Mae'r 11 pennod cyntaf yn dweud stori dechreuadau'r byd ac yn aml gelwir hwynt yn 'hanes cynoesol' (h.y. storiâu am y cyfnodau cynharaf).

O amser llinach Abram (pennod 12 ymlaen), rydym yn mynd i mewn i hanes mwy gwybyddus – hanes y medrwn ni geisio ei ddyddio. Mae cryn dipyn o drafod yngl n â phryd y dylid dyddio Abram ond mae'r rhan fwyaf o ysgolheigion yn awgrymu o gwmpas 1800 CC (yn ystod y Cyfnod Efydd Canol, ychydig gannoedd o ynyddoedd wedi adeiladu Côr y Cewri).

*Yn ddiwedd yr awdurnod, gwelwch ym 1.1-11.26*

Dim un mewn gwirionedd (gydag Exodus yn ei ddilyn serch hynny!)



## Pa fath o Lyfr ydy o?

Mwy na thebyg mai dyma'r cwestiwn mwyaf dadleuol y gallwch ei ofyn am Genesis. Bydd rhai yn dadlau fod Genesis yn adroddiad gwyddonol; eraill – fod rhannau o leiaf – yn adlewyrchiadau barddonol, dychmygus; eraill ei fod yn achoseg (h.y. stori i egluro dechreuadau pethau).

Disgrifir Genesis yn aml fel bod yn 'hanes clasurol' gan ei fod yn deud storiâu epig am ei gymeriadau



## Sut cafodd ei strwythuro?

1.1-11.26	O'r Creu i Babel
11.27-25.18	Stori Abram a Sara
25.19-36.43	Stori Jacob, Leah a Rachel
37.1-50.26	Stori meibion Jacob, gan gynnwys Jose

